

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL EIDDO DEALLUSOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cyflwynwyd y Bil Eiddo Deallusol (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Mai 2013. Gellir gweld y Bil yn: <http://services.parliament.uk/bills/2013-14/intellectualproperty.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw moderneiddio rhai agweddau ar y gyfraith mewn perthynas ag eiddo deallusol ("ED"), er mwyn sicrhau bod y system ED yn gweithredu'n fwy effeithlon, ac yn fwy eglur a hygyrch, a thrwy hynny ychwanegu at sicrwydd cyfreithiol.
4. Prif elfennau'r Bil yw'r canlynol:
 - Rhoi ar waith y Llys Patentau Unedig, y lleolir rhan ohono yn Llundain. Byddai hyn yn cyflwyno system batentau sengl ym mron bob un o wledydd yr UE, ac yn ei gwneud yn bosibl i fusnesau Prydeinig ddiogelu eu dyfeisiau ledled y gwledydd hynny drwy wneud un cais yn unig. Byddai unrhyw geisiadau a wrthwynebid yn cael eu dal yn y DU.
 - Ei gwneud yn haws i fusnesau ddeall beth a ddiogelir o dan gyfraith dylunio, er mwyn hyrwyddo arloesi a gwneud buddsoddi yn y sector dylunio yn fwy diogel ac eglur.
 - Gwneud perchnogaeth dyluniadau yn fwy eglur, i annog masnachu mewn asedau anniriaethol dyluniadol a lleihau'r costau i fusnesau.
 - Cryfhau'r trefniadau ar gyfer amddiffyn dyluniadau, drwy gyflwyno cosbau am droseddau ynglŷn â dyluniadau cofrestredig y DU, a chynorthwyo dylunwyr i orfodi eu hawliau.
 - Cyflwyno gwasanaeth sy'n cynnig barn ar faterion hawliau dylunio, gyda'r nod o setlo rhagor o anghydfodau ED mewn ffordd ratach a chyflymach na chyfreitha.

- Caniatáu i'r DU rannu gwybodaeth am geisiadau patent nas cyhoeddwyd, er mwyn clirio'r ôl-groniadau presennol a phrosesu ceisiadau yn gyflymach. Byddai hyn yn cyflymu'r cydweithio rhwng y DU a swyddfeydd patentau eraill.

Y ddarpariaeth yn y Bil y ceisir cydsyniad ar ei chyfer

Cymal 19: Rhyddid gwybodaeth: esemptiad ar gyfer ymchwil

5. Effaith cymal 19 o'r Bil, os daw'n gyfraith, fydd diwygio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG). Mae'r cymal yn mewnosod esemptiad newydd yn adran 22A o DRhG, a fydd yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i wrthod datgelu gwybodaeth y gofynnir amdani os yw'n ymwneud â rhaglen o ymchwil sy'n parhau ac y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol. Mae esemptiad tebyg yn bodoli eisoes yn achos awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Yr Alban). Roedd cyflwyno'r esemptiad hwn wedi ei argymhell gan y Pwyllgor Cyfiawnder, yn dilyn ei adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o DRhG. Bydd yr esemptiad yn sefydlu cydraddoldeb rhwng awdurdodau cyhoeddus ledled y DU, ac yn darparu gwell eglurder a sicrwydd i sefydliadau Addysg Uwch ac i bartneriaid ymchwil y tu allan i'r sector cyhoeddus.
6. Er mwyn i'r esemptiad hwn fod yn gymwys, bydd angen i'r awdurdodau cyhoeddus ddangos y byddai datgelu'r wybodaeth yn niweidio, neu'n debygol o niweidio, naill ai'r rhaglen o ymchwil; buddiannau'r cyfranogwyr; yr awdurdod cyhoeddus sy'n dal yr wybodaeth, neu unrhyw berson arall a fyddai, ymhen amser, yn cyhoeddi'r ymchwil. Mae'r esemptiad hefyd yn ddarostyngedig i'r prawf budd y cyhoedd, ac felly ni ellir dibynnu ar yr esemptiad oni fydd y budd i'r cyhoedd o wrthod datgelu'r wybodaeth yn gorbwysu'r budd i'r cyhoedd o'i datgelu.
7. Mae'r esemptiad hefyd yn darparu nad yw'n ofynnol bod awdurdodau cyhoeddus yn cadarnhau nac yn gwadu eu bod yn dal gwybodaeth, os byddai hynny, neu i'r graddau y byddai hynny, yn niweidio neu'n debygol o niweidio, unrhyw un neu rai o'r materion a grybwyllir yn yr esemptiad. Mae hyn yn gyson ag esemptiadau eraill o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
8. Bydd y ddarpariaeth yn gymwys i bob awdurdod cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i DRhG. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus Cymreig.
9. Nid yw'r ddarpariaeth yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
10. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â pharagraff 14 (Mynediad at wybodaeth a ddelir gan awdurdodau

cyhoeddus mynediad agored). Byddai modd i Ddeddf Cynulliad ddiwygio DRhG drwy gyflwyno esemptiad cyffelyb ar gyfer ymchwil yn y cyfnod cyn ei chyhoeddi, a fyddai'n gymwys i "awdurdodau cyhoeddus mynediad agored" ("*open access public authorities*"). Y cyrff a gwmpesir yn y diffiniad o'r cyrff hynny yw'r Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad, Llywodraeth Cymru ac "Awdurdodau Cyhoeddus Cymreig" yn yr ystyr o "Welsh Public Authorities" fel y'u diffinnir gan DRhG.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

11. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil Seneddol hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur ar gyfer cymhwyso'r darpariaethau i Gymru. Drwy ddefnyddio'r Bil, bydd modd i awdurdodau cyhoeddus mynediad agored gael budd o'r esemptiad newydd yr un pryd ag y cyflwynir yr esemptiad yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Goblygiadau Ariannol

12. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Mai 2013